

## Cymraeg – Iaith Hamdden

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn cydnabod maes allweddol gweithgareddau chwaraeon a hamdden i'r iaith Gymraeg – o ran dylanwadu ar agweddau at y Gymraeg, ychwanegu dimensiwn at addysg Gymraeg a chreu cyfleon economaidd i gynnal cymunedau lleol. Nodwn hefyd lansiad ymgyrch yn siroedd Dyfed yn gynharach eleni yng Nghlwb Rygbi Castell Newydd Emlyn.

Byddwn yn sefydlu Swyddog arbennig gyda sedd ar Senedd y Gymdeithas i gynnull ynghyd gweithgor 'Cymraeg – Iaith Hamdden' a fydd â'r nod o wneud y Gymraeg yn brif iaith gweithgareddau chwaraeon a hamdden yn gynyddol trwy'r wlad.

Bydd y gweithgor yn:

- cynnwys aelodau o wahanol ranbarthau, gan rannu profiadau a threfnu ymgyrchoedd i ddwyn pwysau ar gyrff chwaraeon canolog ac ar Lywodraeth ganolog
- gwahodd pobl sy'n weithredol yn y maes i gyfrannu o'u profiad at gyfarfodydd, digwyddiadau a phapurau polisi
- hybu mentrau economaidd ym maes gweithgareddau hamdden a chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg
- creu adroddiad chwarterol i'r Cyngor Cenedlaethol ac adroddiad blynyddol i'r Cyfarfod Cyffredinol ar gynnydd yn y maes.

*Cynigir gan Ranbarth Caerfyrddin/Penfro*

### **Gwelliant gan Senedd y Gymdeithas**

Yn yr ail baragraff, newid 'Byddwn yn sefydlu Swyddog arbennig gyda sedd ar Senedd y Gymdeithas ...' i 'Byddwn yn sefydlu Swyddog arbennig o fewn y Grŵp Hawl i'r Gymraeg ...'.

## Yr Argyfwng Hinsawdd

Yn cynnig bod y Cyfarfod Cyffredinol yn:

1. datgan bod Cymdeithas yr Iaith yn cydnabod yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol byd eang
2. cefnogi a chydsefyll ag ymgyrchwyr sydd wedi bod yn tynnu sylw at yr argyfwng rydym yn ei wynebu, yn arbennig arweiniad ysbrydoledig y bobl ifanc ar draws y byd sydd wedi cymryd rhan yn y streiciau ysgol dros yr hinsawdd
3. collfarnu diffyg gweithredu digonol llywodraethau Prydain a Chymru yn wyneb yr argyfwng
4. nodi'r effaith ddinistriol fydd newid hinsawdd a dirywiad yr amgylchedd naturiol yn cael ar gymunedau Cymraeg

5. nodi taw pobloedd frodorol a chymunedau bregus lleiafrifol sy'n profi effeithiau newid hinsawdd fwyaf, er taw nhw sydd lleiaf cyfrifol am eu hachosi
6. credu bod y frwydr dros ein hiaith ynghlwm â'r frwydr dros ddyfodol ein planed a'n plant ac yn cydnabod y cyswllt annatod rhwng cynaliadwyedd ein hiaith, ein cymunedau a'n hamgylchedd naturiol
7. credu bod angen i'r Gymraeg ac ieithoedd a diwylliannau llai eraill fod wrth galon y gwaith o wireddu cyfiawnder hinsawdd
8. penderfynu y bydd Cymdeithas yr Iaith yn:
  - a. adolygu ein gweithredoedd fel mudiad gyda'r nod o leihau eu heffaith amgylcheddol;
  - b. datblygu ein gwaith ar faterion amgylcheddol a'r cyswllt rhwng y Gymraeg a'r argyfwng hinsawdd, gan gynnwys cyhoeddi polisiâu penodol yn y maes;
  - c. cymryd cyfleoedd i gydweithio a chydsefyll gydag ymgyrchwyr a mudiadau eraill yn y maes amgylcheddol;
  - d. annog ein haelodau i gymryd rhan mewn streiciau a gweithredoedd uniongyrchol sydd â'r nod o ymgyrchu dros gyfiawnder hinsawdd, lle mae'r rhain yn cyd-fynd â'n hegwyddorion fel mudiad

*Cynigydd: Mabli Siriol*

*Eilydd: Sioned Hâf*

## Addysg uwch

Yn cynnig bod y Cyfarfod Cyffredinol yn:

1. nodi pryder am doriadau diweddar a chynlluniau sydd ar y gweill mewn sawl prifysgol Gymreig, gan gynnwys israddio adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd, torri swyddi a chyrсияu cyfrwng Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor a chau cwmni adnoddau addysg cyfrwng Cymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth
2. cydsefyll â gweithwyr addysg uwch sydd wedi bod yn gwrthwynebu camau gan brifysgolion i dorri swyddi, pensiynau a chyflogau a gwaethygu amodau gwaith.

Credu:

3. bod y sector addysg uwch yng Nghymru mewn creisis, o ganlyniad i flynyddoedd o bolisiâu neoryddfrydol niweidiol yn y maes, gan gynnwys polisi ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru sydd wedi arwain at gynyddu allfudiad pobl ifanc a gwaethygu sefyllfa ariannol ein prifysgolion
4. dylai polisi cyhoeddus drin prifysgolion fel sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol, nid busnesau i gystadlu yn erbyn ei gilydd a rhoi elw cyn addysg
5. bod gwerth addysg dda i gymdeithas, y gymuned a'r unigolyn yn amhrisiadwy, a bod gan bob person yr hawl i addysg gydol oes o ansawdd ac am ddim.

Galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:

- a. ddileu ffioedd dysgu i fyfyrwyr yng Nghymru
- b. ddemocrateiddio strwythurau rheoli prifysgolion fel eu bod yn cynnwys cynrychiolaeth ystyrion gan staff, myfyrwyr a'r gymuned
- c. ymwrthod â fframweithiau mesur perfformiad sy'n annog cystadlu ac yn niweidiol i brofiadau staff a myfyrwyr
- ch. osod targedau ar brifysgolion i hyfforddi gweithlu'r dyfodol mewn gwasanaethau cyhoeddus megis iechyd, gofal ac addysg
- d. osod dyletswyddau ar brifysgolion i ehangu mynediad i'r gymuned leol a darparu cyrsiau a rhaglenni am ddim i'r gymuned
- dd. osod yr hawl i addysg gydol oes am ddim mewn statud.

*Cynigir gan y Grŵp Addysg*

## Ethol swyddogion y Gymdeithas ar-lein

Nodwn fod bod yn gynhwysol a sicrhau mynediad i bobol gymryd rhan yn ein prosesau democrataidd yn hollbwysig.

Nodwn fod, ar hyn o bryd, rhaid bod yn bresennol mewn Cyfarfodydd Cyffredinol er mwyn gallu pleidleisio dros swyddogion.

Nodwn fod pob math o resymau y gall pobol ddim fod yn gallu mynychu Cyfarfodydd Cyffredinol, gan gynnwys rhesymau iechyd corfforol a meddyliol a mynediad i drafnidiaeth.

Nodwn y byddai hi'n hollol bosibl pleidleisio ar lein.

Nodwn na fyddai hyn yn hollol berffaith oherwydd heriau mynediad i'r wê ond y byddai yn welliant sylweddol ar y broses bresennol.

Cynigiwn fod pwynt 6ch y cyfansoddiad yn newid i:

“Mae gan pob aelod o'r Gymdeithas yr hawl i bleidleisio dros unrhyw aelod arall sydd wedi derbyn enwebiad ar gyfer unrhyw swydd, trwy bleidlais gudd yn y Cyfarfod Cyffredinol neu ar lein cyn y cyfarfod gyda dyddiad cau penodedig, gyda phleidlais bost ar gael hefyd.”

*Cynigir gan Ranbarth Ceredigion*

### **Gwelliant gan Senedd y Gymdeithas**

Ychwaneger frawddeg newydd ar ôl y trydedd brawddeg:

“Nodwn bod modd gwneud cais am bleidlais post ar hyn o bryd”

Dileer paragraff olaf a mewnosoder yn lle:

“Cyfarwyddwn yr Ysgrifennydd Cyffredinol i ymchwilio i'r posibilrwydd o bleidleisio ar-lein, gan ystyried ymarferoldeb a chost symud i system o'r fath.”

## Iaith a Gweinyddiaeth Cyngorau Sir

Cyngor Gwynedd yn unig sy'n gweinyddu trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd, ond er mwyn creu gwell swyddi a chyfleoedd cyflogaeth i bobl ifainc gorllewin Cymru, mae'n hanfodol i gynghorau Sir Fôn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin fabwysiadu cynlluniau ac amserlenni cadarn i ddechrau gweinyddu'n fewnol yn y Gymraeg, a hynny ar frys.

I'r diben hwn, galwn ar gynghorau sir gorllewin Cymru i gydweithio'n agosach er mwyn datblygu a magu gweithlu gyda'r sgiliau angenrheidiol trwy rannu arfer dda ac adnoddau a sefydlu 'Academi Ragoriaeth', efallai mewn partneriaeth gyda'r Coleg Gymraeg Cenedlaethol, i hyfforddi a datblygu swyddogion uwch a rheolwyr y dyfodol.

Yn yr un modd, galwn ar aelodau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg i bwysu ar gynghorau Gwynedd, Sir Fôn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin i sefydlu strwythurau ffurfiol i hwyluso'r broses o newid iaith fewnol yr awdurdodau hyn.

*Cynigir gan Ranbarth Caerfyrddin-Pentfro*

## Sefydlu Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Nodwn fo'r Gymdeithas wedi mynegi safbwynt cryf yn erbyn hiliaeth (Cyfarfod Cyffredinol 2018), ac eisoes wedi derbyn fod cymunedau ethnig lleiafrifol yn tueddu cael eu cau allan o'r Gymraeg.

Nodwn fod yna anghenion arbennig gan bobl ac amryw o anableddau sy'n effeithio ar eu mynediad at y Gymraeg.

Nodwn fod yna ganfyddiad fo'r gymuned iaith Gymraeg yn tueddu at agweddau traddodiadol, a fod pobl LHDT yn arbennig yn teimlo diffyg croeso.

Yn olaf, nodwn mai hawl cymunedau lleiafrifol ei hunain ydy disgrifio eu profiad, a llunio atebion priodol i'r allgáu a'r rhwystrau y maen nhw'n eu gwynebu.

Wedi nodi'r uchod, cynigiwn fod y Cyfarfod Cyffredinol yn:

1. creu Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth o fewn Cymdeithas yr Iaith
2. creu'r rolau Cadeirydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac Is-gadeirydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, fel aelodau o'r Senedd

3. datgan y dylai unrhyw ymgeisydd am y rolau uchod fod yn aelod o grŵp lleiafrifol o ran un (neu fwy) o'r nodweddion canlynol: hil/ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhyw
4. datgan mai cyfrifoldeb y Cadeirydd fydd: cadeirio cyfarfodydd y Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth; mynd ati'n rhagweithiol i ganfod barn a sylwadau aelodau'r Cymdeithas sy'n perthyn i grwpiau lleiafrifol; cynrychioli safbwyntiau grwpiau lleiafrifol mewn cyfarfodydd y Gymdeithas; gweithio i wneud y Gymdeithas, a'r gymuned iaith-Gymraeg ehangach, yn groesawgar ac yn ddiogel i bobl o gymunedau lleiafrifol.

*Cynigydd: Bethan Tovey*

*Eilydd: i'w gadarnhau*

### **Gwelliant gan Senedd y Gymdeithas**

Ychwaneger ail baragraff newydd: "Nodwn fod angen adeiladu ar waith caled y Gymdeithas dros y blynyddoedd diwethaf yn herio rhagfarn o bob math, gan gynnwys safiad cadarn yn erbyn pleidiau adain-dde eithafol."

Yn y paragraff olaf, ar ddiwedd is-bwynt 1, ychwaneger, "fel is-bwyllgor o'r Senedd".

Yn y paragraff olaf, dileu is-bwynt 2.

Yn y paragraff olaf, mewnosoder yn lle is-bwynt 3 presennol:

"3. Datgan y dylai'r Senedd sicrhau bod aelodaeth yr is-bwyllgor hwn yn cynnwys arbenigedd a chynrychiolaeth deg o ran y nodweddion canlynol: hil/ethnigrwydd; anabledd; cyfeiriadedd rhywiol; hunaniaeth rhywedd a rhywedd. Gwahoddir aelodau o'r Gymdeithas i fod yn aelodau o'r is-bwyllgor."

Yn y paragraff olaf, mewnosoder yn lle is-bwynt 4 presennol:

"4. Datgan mai cyfrifoldeb y pwyllgor fydd: mynd ati'n rhagweithiol i ganfod barn a sylwadau aelodau'r Cymdeithas sy'n perthyn i grwpiau sy'n profi gwahaniaethu; cynnal adolygiad o weithgarwch a strwythurau'r Gymdeithas a'u heffaith ar gydraddoldeb; cyflwyno argymhellion i'r Senedd ynglyn â sut i wneud y Gymdeithas yn groesawgar ac yn ddiogel i bobl o gymunedau sy'n profi gwahaniaethu a sut gall y Gymdeithas fynd ati'n rhagweithiol i gydsefyll â'r grwpiau hyn a chyfrannu at wneud Cymru'n gymdeithas gynhwysol a chyfiawn i bawb."

Yn y paragraff olaf, ychwanegu is-bwynt 5:

"5. Gofyn i'r Senedd adrodd yn ôl i'r Cyfarfod Cyffredinol yn 2020 ar gynnydd ar y gwaith hwn."

## Uno Senedd a Chyngor Cymdeithas yr Iaith

### 1. Noda'r Cyfarfod Cyffredinol

- fod strwythur presennol y pwyllgorau rheoli – y Senedd a'r Cyngor – yn ddryslyd ac yn ei gwneud yn anoddach i aelodau ymwneud â phrosesau democrataidd y mudiad.
- fod angen sicrhau amser teilwng yng nghyfarfodydd y Senedd i drafod ymgyrchoedd cenedlaethol y Gymdeithas yn ogystal â gwaith celloedd a rhanbarthau, a'r weinyddiaeth sy'n cynnal ein hymgyrchoedd.
- y byddai uno'r Senedd a'r Cyngor yn golygu bod holl swyddogion cenedlaethol y mudiad yn aelodau cydradd o un corff fyddai'n arwain gwaith y mudiad yn genedlaethol.

### 2. Penderfyna'r Cyfarfod Cyffredinol ddileu adran 6 bresennol y Cyfansoddiad ("Y Senedd a'r Cyngor"), ac yn ei lle, gosod y testun canlynol:

#### "6. Y Senedd

a. Senedd Cymdeithas yr Iaith fydd yn rheoli'r Gymdeithas rhwng Cyfarfodydd Cyffredinol o'i haelodau oddi fewn i ganllawiau polisi a osodir gan Gyfarfodydd Cyffredinol.

b. Bydd y Senedd yn cwrdd ddeg gwaith y flwyddyn ac yn cynnwys yr aelodau a nodir yn is-adran (e). Dim ond yr aelodau hyn fydd â hawl i bleidleisio, er bod hawl gan unrhyw aelod i fynd i gyfarfod o'r Senedd.

c. Yn ystod blwyddyn arferol, cynhelir Senedd Ymgyrchoedd bedair gwaith, Senedd Ranbarthau deirgwaith a Senedd Weinyddol deirgwaith.

ch. Aelodau'r Gymdeithas fydd yn gyfrifol am ethol aelodau i wasanaethu ar y Senedd am gyfnod o flwyddyn. Mae gan bob aelod o'r Gymdeithas hawl i enwebu unrhyw aelod arall ar gyfer unrhyw swydd drwy lenwi'r ffurflen enwebiadau a fydd yn cael ei hanfon at sylw'r holl aelodau yn y cyfnod yn arwain at y Cyfarfod Cyffredinol.

d. Mae gan bob aelod o'r Gymdeithas hawl i bleidleisio dros unrhyw aelod arall sydd wedi derbyn enwebiad ar gyfer unrhyw swydd, trwy bleidlais gudd yn y Cyfarfod Cyffredinol, gyda phleidleisiau o bell ar gael ar gais i aelodau na allant fod yn bresennol yn y Cyfarfod Cyffredinol.

dd. Bydd y swyddogion etholedig yn cael eu henwi yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol. Gall unrhyw swyddi gwag gael eu llenwi trwy bleidlais yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol.

e. Gan y Cyfarfod Cyffredinol y mae'r hawl i ychwanegu, dileu neu newid natur unrhyw swydd ar y Senedd. Os oes sefyllfa yn codi lle mae'n rhaid creu swydd

newydd ar y Senedd rhwng dau Gyfarfod Cyffredinol, mae hawl gan Senedd y Gymdeithas i wneud hynny, ond rhaid cadarnhau unrhyw benderfyniad o'r fath yn y Cyfarfod Cyffredinol dilynol. Caniateir i'r Senedd gyfethol hyd at dri aelod heb bortffolio bob blwyddyn.

f. Os bydd un o'r swyddi a etholwyd gan y Cyfarfod Cyffredinol yn dod yn wag yn ystod y flwyddyn, mae gan y Senedd hawl i ethol unrhyw aelod o'r Gymdeithas i wasanaethu hyd y Cyfarfod Cyffredinol nesaf. Mae deiliaid y swyddi canlynol fel y'u hetholwyd gan aelodau Cymdeithas yr Iaith yn aelodau llawn o'r Senedd:

- Cadeirydd Cenedlaethol, a fydd yn gyfrifol am reoli'r Gymdeithas wedyn rhwng cyfarfodydd y Senedd
- Is-gadeirydd Ymgyrchoedd, a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y Grwpiau Ymgyrchu'n weithredol
- Is-gadeirydd Cyfathrebu, a fydd yn gyfrifol am beiriant cyfathrebu'r Gymdeithas
- Is-gadeirydd Gweinyddol, a fydd yn gyfrifol am ein gweinyddiaeth
- Swyddog Aelodaeth, a fydd yn gyfrifol am ein hymgyrchoedd aelodaeth a'n system aelodaeth
- Swyddog y We, a fydd yn gyfrifol am ein presenoldeb ar-lein
- Swyddog Adloniant, a fydd yn gyfrifol am gydlynu gwaith pwyllgorau adloniant yn genedlaethol
- Swyddog Dysgwyr, a fydd yn gyfrifol am drefnu darpariaeth i bobl ddysgu'r iaith
- Trysorydd, a fydd yn gyfrifol am gyfrifon y Gymdeithas
- Swyddog Codi Arian
- Swyddog Mentrau Masnachol
- Golygydd y Tafod
- Swyddog Dylunio
- Swyddog Rhyngwladol
- Swyddog Cydraddoldeb
- Cadeirydd y Grŵp Hawl i'r Gymraeg
- Is-gadeirydd y Grŵp Hawl i'r Gymraeg
- Cadeirydd yr Is-grŵp Iechyd, sy'n is-grŵp o'r Grŵp Hawl
- Cadeirydd y Grŵp Cymunedau Cynaliadwy
- Is-gadeirydd y Grŵp Cymunedau Cynaliadwy
- Cadeirydd y Grŵp Addysg
- Is-gadeirydd y Grŵp Addysg
- Cadeirydd y Grŵp Dyfodol Digidol
- Is-gadeirydd y Grŵp Dyfodol Digidol

ff. Os na all Cadeirydd neu Is-Gadeirydd unrhyw grŵp ymgyrchu fod yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Senedd, dylai'r grŵp ddewis cynrychiolydd arall i'w gynrychioli ac i bleidleisio ar ei ran.

g. Bydd Cadeirydd pob rhanbarth, wedi'u hethol gan eu rhanbarthau, hefyd yn aelodau llawn o'r Senedd gyda'r un hawl i bleidleisio. Os na all Cadeirydd y rhanbarth fod yn bresennol yn

un o gyfarfodydd y Senedd, dylai'r rhanbarth ddewis cynrychiolydd arall i'w gynrychioli ac i bleidleisio ar ei ran.

ng. Bydd holl swyddogion cyflogedig y Gymdeithas yn aelodau llawn o'r Senedd yn ddiofyn. Y Senedd fydd yn penodi Swyddogion Cyflogedig.”

*Cynigir gan Senedd y Gymdeithas*

## Mân ddiwygiadau i'r Cyfansoddiad

Cytuna'r Cyfarfod Cyffredinol i'r newidiadau i'r cyfansoddiad a nodir yn y ddogfen atodedig.

Atodiad: [\[cliciwch yma\]](#)

*Cynigir gan Senedd y Gymdeithas*

## Strwythur Staffio

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol fod y Senedd wedi dechrau adolygu'r strwythur staffio presennol ac yn bwriadu dod i benderfyniad terfynol erbyn diwedd y flwyddyn.

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol mai nod yr adolygiad yw sicrhau strwythur staffio sy'n galluogi'r gweithgarwch mwyaf effeithiol gan y Gymdeithas, amodau gwaith da i staff a sicrwydd ariannol i'r mudiad.

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol na fydd rôl Swyddog Maes y De yn cael ei ail-hysbysebu tra bod yr adolygiad hwn yn parhau.

Gofynna'r Cyfarfod Cyffredinol i'r Senedd drefnu cyfarfod estynedig i ddatblygu strategaeth codi arian fydd yn galluogi'r Gymdeithas i gynnal ac adeiladu ar lefelau o weithgarwch presennol.

*Cynigir gan: Senedd y Gymdeithas*

## Disgyblaeth a Newidiadau i'r Cyfansoddiad

Nodyn esboniadol: er hwylustod, dyma adran berthnasol y cyfansoddiad presennol:

### *"5. Disgyblaeth*

*Mae Cymdeithas yr Iaith yn cydnabod y bydd safbwyntiau ei haelodau'n amrywio'n fawr a bod angen parchu a gwranddo ar farn aelodau eraill, ond mae'r Gymdeithas yn cadw'r hawl i ddiarddel unrhyw aelod nad yw'n cyflawni'r amodau aelodaeth. Bydd penderfyniad o'r fath yn cael ei wneud gan y Senedd. Bydd y rhesymau dros weithredu trefniadau disgyblu fel a ganlyn:*

*a. Gweithredoedd neu ddatganiadau sy'n groes i amcanion y Gymdeithas;*



- b. Aelodaeth o fudiad sy'n mynd yn groes i amcanion y Gymdeithas;*  
*c. Ymddygiad parhaus yng nghyfarfodydd y Gymdeithas sy'n fygythiol neu sy'n aflonyddu ar eraill;*  
*Bydd y cosbau isod ar gael i'r Senedd yn unol â thelerau'r Rheolau hyn:*  
*i. Ceryddu;*  
*ii. Atal aelodaeth am gyfnod;*  
*iii. Diarddel o'r Mudiad.*  
*Bydd gan unigolyn a waharddwyd rhag bod yn aelod o'r Gymdeithas o ganlyniad i bennu cosb ddisgyblaethol yn unol â'r rheolau hyn hawl i wneud cais i ymaelodi â'r Gymdeithas o'r newydd ddim cynt na dwy flynedd ar ôl pennu'r gosb."*

### **Newidiadau arfaethedig i'r cyfansoddiad:**

(i) Yn adran 5, ychwanegwch ar ôl "Bydd penderfyniad o'r fath yn cael ei wneud gan y Senedd.":

"Mae hawl gan y Senedd i ddirprwyo'r broses ymchwilio a llunio argymhellion i swyddog neu grŵp o swyddogion eraill.

"Mewn sefyllfa eithriadol er mwyn diogelu iechyd neu les aelodau'r Gymdeithas, rhwng cyfarfodydd Senedd, mae hawl, drwy gytundeb unfrydol y Cadeirydd, y swyddog aelodaeth a'r is-gadeirydd gweinyddol atal aelodaeth rhywun am gyfnod dros dro hyd at gyfarfod nesaf y Senedd. Nid oes hawl gan yr aelodau hyn ail-ddefnyddio'r pŵer eithriadol hwn mwy nag unwaith o fewn cyfnod o 6 mis, ond mae modd i'r Senedd benodi tri swyddog arall i fedru arddel y pŵer yn eu lle."

(ii) Yn adran 5, ychwanegwch bwynt ii. newydd (ac ail-rifo gweddill y pwyntiau eraill):

"ii. gwahardd o ddigwyddiadau a/neu gyfarfodydd y Mudiad"

(iii) Yn adran 5, yn lle "c. Ymddygiad parhaus yng nghyfarfodydd y Gymdeithas sy'n fygythiol neu sy'n aflonyddu ar eraill;" mewnosodwch:

"c. Ymddygiad yng nghyfarfodydd neu ddigwyddiadau'r Gymdeithas sy'n fygythiol neu sy'n aflonyddu ar eraill;"

(iv) Yn adran 5, ychwanegwch bwynt 5ch. newydd:

"ch. Bod gan aelodau'r Senedd rheswm neu dystiolaeth eithriadol o gryf sy'n peri iddynt gredu bod risg wirioneddol bod aelod yn debygol, mewn cyfarfodydd neu ddigwyddiadau'r Gymdeithas, o ymddwyn yn fygythiol, aflonyddu ar eraill, neu beryglu diogelwch aelodau eraill;"

(v) Ychwanegwch baragraffau newydd ar ddiwedd adran 5:

"Er mwyn sicrhau diogelwch pob aelod o'r Gymdeithas, mae hawl gan gadeiryddion rhanbarthau, celloedd a grwpiau ymgyrchu'r mudiad gymryd penderfyniadau gweinyddol mewn ymateb i ymddygiad aelodau sy'n peri pryder iddynt, gan gynnwys peidio â'u gwahodd i gyfarfodydd. Fodd bynnag, nid oes hawl ganddynt newid statws aelodaeth unigolyn. Dylai unrhyw gamau felly gael eu cymryd wedi i'r cadeirydd rhanbarth, cell neu grŵp gyfathrebu ac ymgynghori gyda swyddogion perthnasol y Senedd."

"Bydd gan y Senedd bolisi urddas a pharch i roi arweiniad i bob rhan o'r Gymdeithas o ran ymddygiad aelodau, cefnogwyr a mynychwyr digwyddiadau'r Gymdeithas ynghyd â phrosesau disgyblu yn unol â'r cyfansoddiad hwn. Bydd y polisi yn cynnwys manylion unrhyw brosesau apelio."

*Cynigir gan Senedd y Gymdeithas*